SUL Addysg 2005

Ond rhowch eich bryd ar y doniau gorau. Ac yr wyf am ddangos i chwi ffordd ragorach fyth. Os llefaraf â thafodau dynion ac angylion, a heb fod gennyf gariad, efydd swnllyd ydwyf, neu symbal aflafar. (1 Corinthiaid 12:31 - 13:1 BCN)

EMYNAU A AWGRYMIR

- O tyred i'n gwaredu, Iesu da
- Dyro dy gariad i'n clymu
- Iôr, gwna fi'n offeryn dy hedd
- O Iesu, mi addewais
- Cymer, Arglwydd, f'einioes i
- Abba, fe'th addolwn
- Am dy Eglwys, Iôr bendigaid

(Y rhain i'w cael yn 'Caneuon Ffydd')

SYNIADAU AR GYFER GWEDDÏAU

- Plant bach yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf
- Plant yn symud o ysgol gynradd/ysgol ganol i ysgol uwchradd
- Myfyrwyr yn symud ymlaen i addysg bellach ac addysg uwch
- Oedolion yn cychwyn ar brofiadau dysgu newydd

DARLLENIADAU A AWGRYMIR

Eseia 9:1-4
Salm 27:1, a 4-9
1 Corinthiaid 1:10-18
Mathew 4:12-23

YSTYRIAETHAU AR GYFER PREGETHAU / ANERCHIADAU

SALM 27

Gall y byd fod yn lle cythryblus - yn llawn pryder ac ofn. Beth sy'n gallu rhoi i ni'r syniad o dangnefedd tragwyddol a sicrwydd? Pwy a beth yr ydym yn gallu ymddiried ynddynt? Cynghreiriau? Y Cyfryngau? Gwleidyddion? Cyfeillion? Therapi adwerthol?

Neu, i'w roi mewn geiriau eraill: pe byddem yn gallu gofyn i Dduw am un peth (unrhyw beth!) beth fyddem ni'n gofyn amdano? Fydden ni, fel y salmydd, yn gofyn am i ni gael "byw yn nhŷ'r ARGLWYDD" holl dyddiau ein bywyd? Fydden ni'n ystyried gofyn a allem ni gael "edrych ar hawddgarwch yr ARGLWYDD ac i ymofyn yn ei deml." (Salm 27.4)

Er bod y salmydd o ddifrif yn ceisio Duw mae'n parhau i deimlo dan fygythiad ac yn fregus wrth wynebu ei elynion. Mae'n ddigon hawdd weithiau i goleddu'r agwedd honno, 'os na fedrwn ni eu concro waeth i ni ymuno â nhw', wrth i ni ddod wyneb yn wyneb ag anghyfiawnder, casineb a'r cymryd mantais a welwn o'n cwmpas ni. Mae'r salmydd yn gwrthod rhoi mewn i'r temtasiwn o ofyn a gaiff fod mor nerthol ac anhrugarog â'i wrthwynebwyr. I'r gwrthwyneb, mae'n gwneud ei apêl trwy ddweud: "Dysg i mi dy ffordd, O ARGLWYDD, arwain fi ar hyd llwybr union . . . Paid â'm gadael i fympwy fy ngelynion." (Salm 27:11-12)

Mae'r salmydd yn penderfynu ymddiried yn Nuw a threulio amser yn ei gwmni. Dylem ninnau wneud yr un modd.

Mae'r salmydd yn penderfynu dilyn cynllun cyfiawn Duw - ffordd rhagorach ar gyfer ei fywyd - ac mae'n gwrthod ffyrdd pobl greulon a drygionus. Dylem ninnau wneud yr un modd.



SUL Addysg 2005

RHYWBETH I'W DDATHLU AR Y CYD

Dathlwch a chefnogwch yr addysgu a'r dysgu sydd yn digwydd yn eich cymuned trwy ddefnyddio'r litwrgi hwn ar Sul Addysg. Mae sawl ffurf i addysgu a dysgu a digwydd hynny mewn sawl sefyllfa, felly cafodd y fframwaith ganlynol ei chynllunio er mwyn iddi fod yn hyblyg. Gall, er enghraifft, fod yn rhan o drefn gwasanaeth, yn dilyn y bregeth ac yn gorffen gyda'r 'Tangnefedd'.

Defnyddir y gair 'athro' yn ei ffurf ehangaf fel y gall gynnwys pawb sy'n gweithio â phobl o bob oed, a'r rhai sy'n gweithio ym myd addysg statudol a gwirfoddol.

GALW YNGHYD

Ymhen tridiau daethant o hyd iddo yn y deml, yn eistedd yng nghanol yr athrawon, yn gwrando arnynt a'u holi. (Luc 2.46)

COMISIWN

Bydd yr arweinydd yn gwahodd pawb sy'n gweithio mewn unrhyw fodd, mewn ysgol, coleg neu brifysgol, a'r rhai sy'n gweithio gyda phlant, ieuenctid ac oedolion, i sefyll a dod ymlaen.

Mae Duw trwy ei ras yn rhoi ei roddion i bob un o'i bobl. Rydych chi wedi derbyn y rhodd o addysgu, cynnal ac annog pobl ifanc. A wnewch chi wneud eich gorau glas i alluogi'r rhodd honno i flaguro ynoch ac i'w defnyddio i drawsnewid bywydau?

Pawb: Gyda chymorth Duw fe wnawn.

Mae Duw trwy ei ras yn ein galw i weithio drosto mewn amryw o ffyrdd. A wnewch chi wrando ar ei alwad ar eich bywyd chi a byw'n ffyddlon i'ch galwedigaeth?

Pawb: Gyda chymorth Duw fe wnawn.

Mae Duw trwy ei ras wedi eich galw i fod yn dyst Cristnogol yn eich ysgol, eich cartref, eich Eglwys a'ch man gwaith. A wnewch chi addo bod yn dyst ffyddlon i'ch galwedigaeth Gristnogol?

Pawb: Gyda chymorth Duw fe wnawn.

Arglwydd Iesu, ffynhonnell pob gwybodaeth a gwirionedd, rho i bawb sy'n addysgu ac yn annog pobl ifanc, ddoethineb, nerth a thrugaredd ym mhob peth y maen nhw'n ymwneud ag ef a chaniatâ y bydd pawb sy'n dysgu yn gallu bod yn agored i dderbyn dy nerth trawsffurfiol; er mwyn dy enw. **Amen.**

Mae dysgu byw yn fusnes mor fendigedig ond anodd, Arglwydd:
Dysgu gwybod a deall,
Dysgu caru a gofalu.
Nid ydym bob amser yn cyrraedd y nod,
Ond yr wyt ti'n ein hannog i ddyfalbarhau.
Felly, tyrd â ni at y diwrnod hwnnw pan fyddwn yn gwybod fel y cawn ein hadnabod
A charu fel y cawn ni ein caru,
Ddydd gorfoledd dy deyrnas.
Gofynnwn hyn yn enw a gras Iesu.
Amen.

Pawb i ddychwelyd i'w seddau.

YMBILIAU

Dduw ein Tad, gweddïwn dros bawb sy'n helpu plant i ddysgu a thyfu, yn y cartref, yn yr ysgol ac yn yr Eglwys. Gweddïwn y byddi'n eu helpu i roi i'r rhai sydd wedi eu hymddiried i'w gofal, yr hyder a'r awydd i ddysgu. Arglwydd, gweddïwn yn arbennig heddiw dros . . .

Arglwydd yn dy drugaredd,

Pawb: gwrando ein gweddi.

Dduw cariadus, cofiwn am y rhai hynny sy'n addysgu pobl ifanc yn eu harddegau mewn ysgolion uwchradd, colegau a grwpiau ieuenctid. Rho iddyn nhw amynedd a thrugaredd ar gyfer y rhai hynny sy'n wynebu sialensiau a brwdfrydedd cyfnod eu harddegau, gan eu cynorthwyo i wynebu penderfyniadau anodd wrth iddyn nhw dyfu i aeddfedrwydd. Arglwydd, cofiwn yn arbennig am . . .

Arglwydd yn dy drugaredd,

Pawb: gwrando ein gweddi.

Dduw'r Creawdwr, gweddïwn dros y rhai hynny sy'n gweithio mewn Addysg Bellach ac Addysg Uwch ac sy'n addysgu dysgwyr sy'n oedolion, gan ddwyn i gof Gaplaniaid ac Undebau Cristnogol a'u gweinidogaeth ymhlith myfyrwyr. Gweddïwn y bydd myfyrwyr yn agored i dderbyn dy alwad di wrth iddyn nhw gynllunio eu bywydau ar ôl cyfnod eu hastudiaethau. Cofiwn yn arbennig am . . .

Arglwydd yn dy drugaredd,

Pawb: gwrando ein gweddi.

Dduw Sanctaidd, gweddïwn dros wleidyddion mewn llywodraeth genedlaethol a lleol, sy'n gwneud a gweinyddu polisïau addysgol. Gweddïwn dros arolygwyr, ymgynghorwyr a llywodraethwyr. Rho iddyn nhw onestrwydd a doethineb. Gweddïwn yn arbennig dros . . .

Arglwydd yn dy drugaredd,

Pawb: gwrando ein gweddi.